O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 361 (Cy. 84)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Gylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019

Gwnaed	*26 Chwefror 2019*
Yn dod i rym	*1 Mawrth 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Gylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Mawrth 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2019 ac sy'n dod i ben pan

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Chwefror 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.